OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 467 (Cy.78)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*20 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Chwefror 2012*
Yn dod i rym - -	*16 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 iddi ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 16 Mawrth 2012.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

2.—(1) Mae Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen, yn lle'r is-baragraff o dan y pennawd "Small Business Rate Relief" rhodder—

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd paragraff 2(2) o Atodlen 9 gan baragraff 44(2) a (3) o Atodlen 5 i Ddeddf Tai a Llywodraeth Leol 1989 (p.42). Mae diwygiadau eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) O.S. 1993/252, diwygiwyd gan O.S. 2008/3075 (Cy.269), 2010/271 (Cy.34) a 2010/2582 (Cy.216) (C.123). Mae diwygiadau eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.